

## **Pwyllgor Polisi Cynllunio – Cylch Gorchwyl Drafft**

### **1.0 Prif Bwrpas**

1.1 Pwyllgor sy'n darparu cefnogaeth a mewnbwn i'r broses o baratoi a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol.

### **2.0 Swyddogaethau**

2.1 Bydd y Pwyllgor yn darparu arweiniad a barn yn ôl y gofyn ar:

- ddogfennau drafft a baratowyd gan y Tîm Polisi Cynllunio wrth fynd ati i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyn iddynt fynd ymlaen at drefniadau sy'n arwain at geisio adborth gan y cyhoedd;
- sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/fforwm rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau o ymgysylltu â'r cyhoedd neu gynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol wrth baratoi'r Cynllun, a derbyn negeseuon ac ymatebion posib gan y Tîm Polisi Cynllunio;
- dogfennau drafft wrth fynd ati i baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol cyn iddynt fynd ymlaen at drefniadau sy'n arwain at geisio adborth gan y cyhoedd;
- sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/fforwm rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau o ymgysylltu â'r cyhoedd neu gynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol wrth baratoi'r Canllawiau, a derbyn negeseuon ac ymatebion posib gan y Tîm Polisi Cynllunio;
- Adroddiad Monitro Blyneddol y CDLI; a
- dogfennau sy'n cael eu paratoi fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLI.

### **3.0 Mandad**

3.1 Bydd y Pwyllgor yn:

- Bwyllgor o aelodau etholedig trawsbleidiol sy'n cael ei gydnabod yn y Cytundeb Cyflawni ac mae'n cefnogi ac yn cyfrannu at y broses o greu a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol;
- corff sy'n gweithredu ar sail gwybodaeth a thystiolaeth; a
- fforwm sy'n hwyluso'r gwaith mewn amgylchedd cefnogol ac adeiladol.

### **4.0 Cyfansoddiad**

4.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys:

- cyfanswm o 11 aelod etholedig a benodir, o bryd i'w gilydd, yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, yn cynnwys yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;
- bydd y Prif Swyddog Cynllunio a'r Prif Swyddog Polisi, neu eu dirprwyon, yn mynychu'r cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau a chynghori'r Pwyllgor; a
- bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn cael eu hethol o blith yr aelodau etholedig bob blwyddyn.

### **5.0 Cefnogaeth gan Swyddogion i'r Gweithgor**

5.1 Bydd Swyddogion o adrannau eraill yn mynychu yn ôl y gofyn, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Polisi Cynllunio. Bydd gan Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd.

## **6.0 Cworwm**

6.1 O ran gwneud penderfyniadau, bydd rhaid i o leiaf pum aelod fod yn bresennol i ffurfio cworwm.

## **7.0 Amllder**

7.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob mis/yn ôl y gofyn i ddarparu adborth a barn yn ystod y camau allweddol yn y broses o baratoi CDLI newydd, yr Adroddiad Monitro Blynyddol, y broses o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol neu adolygu'r CDLI.

## **8.0 Rhaglenni**

8.1 Bydd y Rheolwr Polisi Cynllunio o'r Tîm Polisi Cynllunio yn gyfrifol am gytuno ar y rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cynllunio.

8.2 Ac eithrio mewn sefyllfa frys, bwriedir bod Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn yr holl bapurau 5 diwrnod gwaith clir cyn unrhyw gyfarfod.

## **9.0 Trefniadau Adrodd**

9.1 Bydd adborth a barn y Pwyllgor yn cyfrannu at brosesau a gwaith yn gysylltiedig â pharatoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol.

9.2 Bydd adborth a barn y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau y bydd gofyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.